**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Ebrill 2020

Annwyl Gyfaill

**Craffu ar COVID-19 a'i effaith**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i **COVID-19** a'i effaith.

**Cylch gorchwyl**

Rydym yn archwilio effaith y coronafeirws ar feysydd o fewn eich cylch gwaith. Rydym am graffu mewn modd hyblyg i'n galluogi i ymateb i'r materion sy'n codi yng nghyd-destun sefyllfa sy'n newid drwy'r amser.

Rydym yn awyddus i glywed gan randdeiliaid ac unrhyw un arall sydd â barn neu brofiadau i'w rhannu. Nid ydym yn disgwyl cael papurau tystiolaeth manwl na hirfaith – byddai e-bost byr yn nodi'ch barn am effaith y pandemig, neu'ch profiad ohono, yn fwy na digon. Byddwn yn cysylltu â chi yn uniongyrchol os oes unrhyw beth yr hoffem ei drafod mewn rhagor o fanylder.

Yn ogystal â chlywed barn y cyhoedd, rydym yn bwriadu cael tystiolaeth mewn ffyrdd eraill. O gofio'r pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, byddwn yn gwneud ein gwaith craffu mewn ffordd sydd mor gymesur a chyfrifol â phosibl, gan ddefnyddio dulliau eraill o gasglu tystiolaeth lle bo hynny'n briodol. Yn ogystal â chlywed barn y cyhoedd, rydym yn bwriadu cynnal sesiynau tystiolaeth yng nghwmni'r Gweinidogion perthnasol.

Rydym yn awyddus i wybod am unrhyw effeithiau penodol neu anghymesur ar bobl oherwydd eu rhywedd, oedran, anableddau, ethnigrwydd, statws economaidd-

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

gymdeithasol neu statws arall. Rydym yn ymwybodol o'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod y coronafeirws yn effeithio'n anghymesur ar bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am hyn. Hefyd, hoffem glywed am brofiadau pobl sy'n arbennig o agored i effeithiau'r feirws, fel pobl ddigartref, pobl o aelwydydd incwm isel, pobl sy'n rhentu, mudwyr, ffoaduriaid, ceiswyr lloches, menywod beichiog a phobl sy'n agored i gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn benodol, hoffem ddeall effaith y coronafeirws, a'r ymateb iddo, yn y meysydd a ganlyn, ac unrhyw feysydd eraill o fewn ein cylch gwaith yr hoffech eu dwyn i'n sylw:

- llywodraeth leol;
- tai;
- cydraddoldeb;
- trechu tlodi;
- hawliau dynol; ac
- unrhyw faterion eraill o fewn portffolio'r pwyllgor.

Rydym yn arbennig yn croesawu awgrymiadau ynghylch unrhyw newidiadau a gwelliannau y gellir eu gwneud yn y tymor byr a'r tymor hir o ran sut i reoli'r pandemig.

O ystyried yr amgylchiadau presennol, nid oes dyddiad cau penodol i chi gyflwyno'ch sylwadau – gofynnwn i chi eu hanfon atom cyn gynted ag y gallwch er mwyn i ni ymateb mor brydlon â phosibl.

Sut i ddweud eich dweud: gallwch rannu eich barn drwy anfon e-bost at **SeneddCymunedau@senedd.cymru**

**Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth:** Fel mater o drefn, rydym yn cyhoeddi'r holl gyflwyniadau sy'n dod i law.

O ran y bobl hynny sy'n cyflwyno sylwadau fel unigolion preifat, byddwn yn sicrhau bod y sylwadau hyn yn cael eu cyhoeddi'n ddienw. Byddwn yn cyhoeddi enwau a rolau'r unigolion hynny sy'n cyflwyno sylwadau mewn cyd-destun proffesiynol, yn ogystal ag enwau unrhyw sefydliadau sy'n cyflwyno gwybodaeth. Mae'n bosibl y byddwn yn dileu data personol o'ch tystiolaeth os ydym o'r farn y gellid defnyddio'r data hyn i'ch adnabod chi neu drydydd parti yn bersonol; a/neu ein bod yn cytuno i wneud hyn mewn ymateb i gais gennych chi.

Bydd angen i riant neu warcheidwad awdurdodi unrhyw gyflwyniadau gan bobl ifanc 13 oed neu’n iau cyn i ni allu derbyn y cyflwyniadau hynny. Gall rieni a gwarcheidwaid awdurdodi cyflwyniadau drwy anfon e-bost i’r perwyl hwnnw.

Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi darllen ein polisi ar ddatgelu gwybodaeth cyn anfon unrhyw wybodaeth atom. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon.

**Iaith:** Rydym yn gweithio mewn dwy iaith swyddogol, sef y Gymraeg a’r Saesneg. Gallwch gyflwyno gwybodaeth yn y naill iaith neu’r llall (neu’r ddwy iaith os yw hyn yn ofynnol yn ôl safonau neu gynllun iaith eich sefydliad), yn unol â’n Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Byddwn yn cyhoeddi’r wybodaeth yn yr iaith y’i cyflwynwyd, gan nodi bod y wybodaeth berthnasol wedi dod i law yn yr iaith honno yn unig.

**Achosion unigol:** Er y bydd yr holl safbwyntiau a gyflwynir yn helpu i lywio ein gwaith craffu thematig ar COVID-19, ni allwn roi cyngor ar achosion unigol na mynd ar drywydd yr achosion hyn ar eich rhan. Fodd bynnag, bydd eich cynrychiolwyr lleol yn gallu’ch cynorthwyo, a gallwch ddod o hyd i’w manylion cyswllt ar ein gwefan.

Yn gywir,

John

John Griffiths AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

O 6 Mai 2020 bydd enw'r Cynulliad yn newid i Senedd Cymru, a chyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. Dyma ragor o wybodaeth.